# DOGFEN B
## *MANYLEB NWYDDAU / GWASANAETHAU*

Mae'r wybodaeth isod yn ddatganiad o ofynion sylfaenol ac ni fwriedir iddo gyfyngu ar feddwl creadigol na gwreiddiol wrth baratoi cynigion.

## GWYBODAETH AR Y SAFLE

Mae mawndiroedd iach yn darparu amrywiaeth o fanteision pwysig; maent yn storio llawer iawn o garbon, yn lleihau perygl llifogydd, ac yn darparu cynefin i fywyd gwyllt a thirweddau trawiadol i bobl eu mwynhau. Fodd bynnag, mae llawer o fawndiroedd yn y DU mewn cyflwr gwael, gydag amcangyfrif o 78%o fawndiroedd yng Nghymru mewn 'cyflwr anffafriol'. Felly, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hadfer yn ôl i gyflwr iach sy'n eu galluogi i ddarparu ar gyfer cymdeithas yn y tymor hir.

Mae safleoedd Waun Griafolen wedi ei lleoli rhwng Trawsfynydd a Llanuwchllyn, mae'n ardal eang o rhostir mynyddig ac gor-gors sydd yn rhan o SSSI Migneint – Arenig – Dduallt.
Mae'r safle wedi warchod am ei boblogaethau fridio o boda tinwen *(circus cyaneus)* a cudyll bach *(Falco columbarius)* o bwysigrwydd Ewropeaidd. Mae'r ardal hefyd o ddiddordeb arbennig am ei rhywogaethau adar yr ucheldir sydd yn cynnwys grugieir du a coch ac tylluan fach. Mae'r safle o gwmpas 450 medr mewn uchder gyda'r pwynt uchaf yn 500 medr a'r Cefn Criafolen.
Mae rhan fwyaf y safle yn fawndir gyda llawer o ddarnau dros 3 medr o ddyfnder ond mae rhannau hefyd wedi erydu yn ddyfn yn enwedig yn Llyn Grych y Waun.
Mae Waun Griafolen wedi ei addasu yn ddwys gyda ffosydd artiffisial ar draws y pump safle, cafwyd gwaith blocio ffosydd ei gyflawni yma yn y gorffennol, ond roedd hyn cyn 2015 ac er bo llawer o'r ffosydd dal wedi eu blocio mae rhai i'w gweld yn agored ac yn erydu. Mae rhai rhigolau naturiol sydd wedi cysylltu a'r hen rwydwaith ffosydd angen i'r llif dŵr gael ei reoli gyda argauoedd neu bafflau, ac mae torlannau mawn mawr mewn rhai mannau o'r safle..

## Y GWAITH ADFER

Blocio ac ail-broffilio ffosydd artiffisial ac rhigolau naturiol, ail-broffilio / ail-orchuddio torlannau mawn.

***Ffosydd***
Mae yno oddeutu **12,725m** o ffosydd wedi ei farcio ar y map uchod a bydd angen eu blocio ac ail-broffilio ble mae'r angen. Bydd yr argauoedd angen ei wneud o fawn sydd ar gael ar y safle, caiff gymeryd y mawn yma o dyllau benthyg ond bydd angen eu tir-lunio wedyn gan adael gyn lleiad o fawn moel a'r ôl a phosib.
Mae argauoedd angen ei tyllu i fewn i bob ochr o'r ffoes er mwyn sicrhau cryfder ac eu bod yn asio i fewn i'r tir yn daclus. Mae Waun Griafolen yn safle eang gyda ffosydd amrywiol, ond mae llawer yn ddyfn a chul gyda dŵr yn llifo ynddynt, dylir felly sicrhau bod yr argauoedd yn cael eu gwnud ddigon cryf i ddal y dŵr yn ôl. Efallai bydd rhai o'r ffosydd sydd wedi eu mapio wedi ei erydu hyd at y graig yn eu gwaelod a byddant o bosib ddim yn addas i'w blocio oherwydd y ni ellir rhoid argau digon cadarn ynddynt, dylir gadael y ffosydd yma heb ei wneud ond eu nodi ar y ddyfais gps.

Yn ddelfrydol ni fydd y pyllau a greuir tu ôl ir argauoedd yn ddyfnach na 30cm, ond ble bydd peipiau mawn yn bresennol efallai bydd rhaid tyllu yn ddyfnach i atal y llif dŵr oddi a'r y safle. Mae ochrau'r pyllau angen eu ail-broffilio i wella diogelwch i dda-byw. Mae rhai nentydd naturiol yn llifo drwy'r safle, ni ddylir blocio rhain, wrth roi argauoedd yn y ffosydd a lleihau erydiad, mi ddylai'r ansawdd dŵr wella yn y nentydd yma.
Yr argymhelliad cyffredinol ar gyfer gwacter rhwng argauoedd ydy 7 – 12 medr, fe ddylir y contractiwr benderfyny ar pa mor aml i adeiladu argau yn ddibynnol a'r ddisgyniad a'r llif dŵr ynddynt.

Fel rhan o'r gwaith yma, rydym yn gofyn i'r contractwyr asesu a ble bo'r angen atgyweirio argauoedd a gafwyd ei wneud yn flaenorol ar y 59km o ffosydd, gellir hyn fod oherwydd maent wedi difrodi, gollwng llawer o ddŵr neu bod y pyllau tu ôl iddynt i'w gweld yn rhy ddyfn ac o bosib yn beryglus i dda-byw. Cafwyd y ffosydd yma eu archwilio dros ddau dymor yr Hâf ac felly gyn belled a gwyddant ddim angen llawer, os o gwbl, o waith ychwanegol. Ond efallai y bydd amodau y gaeaf yn dangos llif dŵr neu beipiau mawn y nid oedd yn amlwg yn ystod misoedd yr haf. Mae'r ffosydd yma wedi ei nodi ar y map fel 'ffosydd wedi blocio' a bydd nodiadau llawn o'r archwiliadau am pob ffoess yn cael ei roi i'r contractiwr a'r ffurf 'shapefile'.

***Rhigolau***
Mae **9,807m** o rigolau a'r draws y safle fel a ddangosir a'r y map uchod, mae'r rhai mewn lliw gwyrdd yn rigolau llai (o dan 3 medr o lêd) a rhai melyn yn lletach na 3 medr. Yn debyg i'r ffosydd, mae'r rhigolau bach angen eu blocio gyda argauoedd mawn lle mae'n bosib. Efallai bydd angen i'r argauoedd yma fod yn lletach os am ddal ardal fawr o ddŵr yn ôl ond ni ddylir eu hadeiladu yn rhy uchel fel bod pyllau dwfn yn cael eu creu, yn ddelfrydol ni ddylir pyllau fod yn ddyfnach na 0.5medr. Gyda rhai o'r rhigolau llydan, efallai bydd bafflau yn fwy addas er mwyn arafu y symudiad dŵr, mae rhain yn debyg i argauoedd ond nid ydynt yn cario ar draws holl lêd yr rhigol, dylir rhoi bafflau i fewn o bob ochr i'r rhigol am yn ail.

***Torlannau mawn***
Dim ond y torlannau mawn sydd wedi ei nodi ar y map sydd angen eu ail-broffilio ac ail-orchuddio a tyfiant. Mae ardal ddwys o dorlannau mawn a'r safle Gwrych y Waun a ni fydd angen eu hadfer yn ystod y gwaith yma.

Mae'r torlannau mawn angen eu ail-broffilio gyda cloddiwr, gan dynnu'r tyfiant sydd yn pwyso dros frig y dorlan yn gyntaf, yna lleihau disgynniad y llethr cyn pwyso'r tyfiant a gafodd ei dynnu yn ôl ar y mawn moel. Bydd angen defnyddio tywyrch o dyllau benthyg i orchuddio gweddill y mawn moel. Efallai y bydd angen gosod bafflau wedi ei lleoli yn bwrpasol ar waelod y torlannau mawn er mwyn cyfeirio dŵr i ffwrdd a'i warchod rhad erydiad pellach.

***Offer***
Bydd y gwaith yn cael ei wneud gyda cloddwyr ar draciau pwysedd isel gan ddefnyddio matiau cors ble mae angen i arbed y llystyfiant a mawn. Bydd pob peiriant angen eu glanhau cyn cyrraedd y safle i sicrhau bio-ddiogelwch da. Bydd contractwyr yn defnyddio dyfeisiau GPS i leoli y ffosydd, rhigolau a torlannau mawn ac i gofnodi y lleoliadau y nodweddion adfer mawn. Bydd contractwyr angen defnyddio system pwmp ar gyfer rhoi tannwydd yn eu peiriannau er mwyn lleihau y risg o lygru, hefyd dylir ail-lenwi oddi wrth y prif ardal mawndir os yn bosib. Gan fod y safle yn eang ac ynysig, caiff defnyddio cerbydau 'ATV' neu debyg er mwyn cyrraedd y safle.

| Safle | Cyf Grid | Maint | Ffosydd/rhigolau | Torlannau | Ffosydd wedi blocio |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn y Griafolen | SH805298 | 123 ha | 1,322m | 627m | 4,420m |
| Craig y Tân | SH815308 | 224 ha | 11,014m | 1,614m | 25,000m |
| Llyn Gwrych y Waun | SH814292 | 162 ha | 7,800m | 3,995m | 7,296m |
| Bryn Gwyn | SH822293 | 121 ha | 1,364m | 672m | 19,220m |
| Tyddyn Ronnen | SH834296 | 67 ha | 1,068m | - | 2,963m |

Gellir cyfrifo'r prisiau fesul hectar, yn ôl y fetr, neu fesul safle, ond **fel lleiafswm, rhowch ddyfynbris ar gyfer bob safle yn unigol yn y tablau a ddarperir yn Nogfen E,** a **nodwch gyfanswm cost y prosiect** ar frig tudalen un y ddogfen hon yn y tabl a ddarperir. Defnyddiwch y tudalennau canlynol i fanylu ar eich dulliau, a / neu atodi datganiad dulliau manwl.

## AMSERLEN
Dylai'r gwaith ar y safle hwn gael ei wneud dros gyfnod rhwng 10/12/2025 a 20/03/2026, dylai'r ymgeiswyr sicrhau bod ganddynt y modd i gwblhau'r gwaith i'r safon disgwyledig o fewn y terfyn amser.

Dylech gynnwys swm wrth gefn clir yn y tendr ar gyfer chwyddiant / cynnydd annisgwyl o ran costau e.e. tanwydd, llafur, y gellir ei ddefnyddio gyda thystiolaeth ategol o gostau uwch a achosir y tu hwnt i amrywiad o 5% ar y costau.

# DOGFEN E

## *FFURF Y CYNNIG A'R GEIRDAON*

### COST

Llenwch y manylebau yn ôl y gofyn a rhowch amcangyfrif o nifer y diwrnodau. Mae 'Cyfanswm Cost' yn faes gorfodol.

| **Gwaith yn Cefn Griafolen** | £ + TAW |
|---|---|
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Blocio ac ail-broffilio ffosydd/rhigolau – 1,322m | |
| Ail-broffilio 627m torlannau. | |

| **Gwaith yn Criag y Tân** | £ + TAW |
|---|---|
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr::* | |
| Blocio ac ail-broffilio ffosydd/rhigolau – 11,014m | |
| Ail-broffilio 1,614m torlannau. | |

| **Gwaith yn Llyn Grych y Waun** | £ + TAW |
|---|---|
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Blocio ac ail-broffilio ffosydd/rhigolau – 7,800m | |
| Ail-broffilio 3,995m torlannau | |

| **Gwaith yn Bryn Gwyn** | £ +TAW |
|---|---|
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Blocio ac ail-broffilio ffosydd/rhigolau – 1,364m | |
| Ail-broffilio 672m torlannau | |

| **Gwaith yn Tyddyn Ronnen** | £ +TAW |
|---|---|
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Blocio ac ail-broffilio ffosydd/rhigolau – 1,068m | |

---

### TÎM PROSIECT ARFAETHEDIG

Nodwch y personél y disgwylir iddynt reoli a chyflawni'r contract hwn gyda APCE a'u meysydd cyfrifoldeb. Dylech gynnwys cymwysterau technegol a manylion profiad. (Atodwch ddogfen ar wahân os oes angen)

| |
|---|
| |

### AMSERLEN ARFAETHEDIG

| |
|---|
| |

